Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001

PUB H 4W

*erthygl nodwedd*

# Beth mae'r Cyfrifiad yn ei olygu i chi

Mae'n digwydd bob deng mlynedd. Mae'n cynnwys pob gŵr, gwraig a phlentyn yn y wlad. Ac yn aml mae'n ennyn teimladau cryf.

Ond beth bynnag fo'ch barn bydd Cyfrifiad cyntaf y Mileniwm newydd yma cyn hir. Ym mis Ebrill 2001, bydd cyfrifydd yn cario bag melyn trawiadol gyda'r logo 'Cymru'n Cyfri' yn ymweld â chi.

Bydd y cyfrifydd, sydd fel arfer yn rhywun sy'n adnabod yr ardal, yn cyflwyno ffurflen y Cyfrifiad yn bersonol i chi ac yn gofyn i chi (neu unrhyw un arall y cytunwch sy'n gyfrifol am eich cartref) gwblhau'r 40 cwestiwn a'i phostio yn ôl mewn amlen ragdaledig. Mae'n swnio'n ddigon syml – felly pam yr holl ffwdan?

## Trafodaeth fywiog

Mae pob cyfrifiad yn codi cwestiynau gwahanol – ac mae'n debyg y bydd hwn yn ennyn trafodaeth fywiog fel rhai eraill dros y 200 mlynedd diwethaf yr ydym wedi cael cyfrifiad. Yn ddigon rhesymol, mae pobl yn gofyn pam y dylent ateb cwestiynau ar faint o bobl sy'n byw yn eu cartref, i bwy maent yn gweithio, ble y cawsant eu geni – ac eraill. Mae ysgrifenwyr penawdau wedi cael modd i fyw yn y gorffennol, gan ddefnyddio geiriau megis preifatrwydd, busnesa, a'r Brawd Mawr er mwyn cynhyrfu pobl.

Felly pam bod angen un arnom ni? Ar gyfer pwy y mae? A beth mae'n ei olygu? Gyda newidiadau mewn cymdeithas o batrymau gwaith i fywyd teuluol yn digwydd mor gyflym mae'n hanfodol bod y cynllunwyr yn cael y wybodaeth ynghylch sut y bydd eich ardal ymhen blynyddoedd i ddod.

Mae'r ffurflen ei hun yn bwysig oherwydd bydd yr atebion a roddwch yn pennu anghenion y gymdeithas yn y dyfodol i'r manylyn lleiaf – popeth o ysgolion, ysbytai a swyddi i gartrefi, trafnidiaeth, yr amgylchedd a busnes. Defnyddir llawer o'r wybodaeth a gesglir gan y Cyfrifiad fel y glasbrint ar gyfer anghenion cymunedau yn y blynyddoedd i ddod.

YSTADEGAU GWLADOL

**Paratowyd gan Adran y Cyfrifiad, Swyddfa Ystadegau Gwladol**
**Tel: 01329 813800**
**e-bost: census.customerservices@ons.gov.uk**
**gwefan: www.statistics.gov.uk**

Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001

**Taflenni ffeithiau'r Cyfrifiad:**


1. Y Cyfrifiad
2. Pam Bod Angen Cyfrifiad Arnom
3. Cyfrifiad 2001 – Beth sy'n newydd?
4. Cyfrif Pawb – y Sialens Fawr
5. Trefniadaeth y Cyfrifiad
6. Swyddi'r Cyfrifiad
7. Y Cyfrifiad a'r Gyfraith
8. Y Cyfrifiad drwy'r Oesoedd


## Penderfyniadau lu

O'r ffeithiau a'r ffigurau gall busnes benderfynu a oes pobl â'r sgiliau a'r cymwysterau cywir yn yr ardal i agor ffatri newydd, pa mor dda yw'r cysylltiadau trafnidiaeth neu a fydd y cyfleusterau lleol yn denu staff.

Felly nid rhyw arolwg a gaiff ei gasglu, ei storio a'i anghofio'n dawel yw'r Cyfrifiad. Gall yr atebion a roddwch helpu Llywodraeth leol a chanolog i benderfynu beth yw anghenion eich ardal.

Byddwch yn falch o glywed bod y ffurflen ei hun, Ffurflen H1 (yng Nghymru a Lloegr) i roi'r enw swyddogol arni, yn weddol hawdd i'w chwblhau. Nid yw'r cwestiynau'n anodd a dylai gymryd 30 munud ar gyfartaledd i'w chwblhau – bydd rhai pobl yn gynt a gall eraill gymryd ychydig yn hwy.

Mae Trefniadaeth y Cyfrifiad ei hun yn ymgyrch enfawr sy'n cynnwys hyd at 70,000 o bobl ledled y wlad. Yng Nghymru a Lloegr trefnir y Cyfrifiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Bydd pob cyfrifydd yn galw ar tua 300 o gartrefi ac yn dosbarthu'r ffurflen mewn pryd ar gyfer Diwrnod y Cyfrifiad ei hun sef dydd Sul Ebrill 29. Os na fyddwch gartref ar y pryd byddant yn gadael taflen yn dweud eu bod wedi galw a byddant yn galw eto i ddosbarthu'r ffurflen.

Nid busnesa yw nod y cyfrifydd – bydd ef/hi yn gallu eich helpu ag unrhyw ymholiadau sydd gennych fel pwy ddylai gwblhau'r ffurflen a phryd y dylid ei chwblhau.

Os ydych yn pryderu y caiff y ffurflen ei throsglwyddo i'r Adran Nawdd Cymdeithasol, y dyn Treth neu'r heddlu – peidiwch â phoeni – yn ôl y gyfraith rhaid cadw ffurflen y Cyfrifiad a'r wybodaeth sydd ynddi yn gyfrinachol ac ni ddylid ei datgelu i neb – tan 100 mlynedd o nawr.

Nid yw hynny'n golygu y gallwch roi unrhyw beth y mynnwch i lawr ar y ffurflen na pheidio â thrafferthu ei dychwelyd. Gellir codi dirwy arnoch am beidio â chwblhau neu ddychwelyd y ffurflen. Ond dim ond pan fetho popeth arall y cymerir cam o'r fath. Mae pobl y Cyfrifiad yn sylweddoli y gall pob math o broblemau godi felly fel arfer byddant yn sensitif i unrhyw anawsterau sydd gennych.

Pan fydd y Cyfrifiad yn cyrraedd eich cartref – cymerwch anadl ddofn a chofiwch mai'r adeg honno o'r degawd yw hi unwaith eto, bod pawb yn yr un cwch ac mai eich cyfraniad chi sy'n cyfrif.

## Cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach:


**Ymholiadau'r wasg yn unig:**
Ffôn: 020 7533 5160

**Ymholiadau cyhoeddus yn unig:**
Census Customer Services
Room 4300S
Office for National Statistics
Segensworth Road
Titchfield
PO15 5RR

Ffôn: 01329 813800
Ffacs: 01329 813587

ebost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk